# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

## Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.

# Mae Lwfans Byw i'r Anabl yn dod i ben...

### Gwybodaeth bwysig os ydych yn cael Lwfans Byw i'r Anabl ar hyn o bryd

Mae Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) yn dod i ben ar gyfer y rhan fwyaf o bobl. Mae budd-dal newydd o'r enw Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) wedi'i chyflwyno i helpu gyda chostau ychwanegol os oes gennych gyflwr iechyd hirdymor neu anabledd.

Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ysgrifennu at bawb a oedd yn 16 oed i 64 oed ar 8 Ebrill l 2013 (y dyddiad y cafodd PIP ei gyflwyno) i ddweud wrthynt fod eu DLA yn dod i ben. Cadwch lygad allan am lythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Nid oes angen i chi wneud dim nes i chi glywed oddi wrthym.

Mae PIP yn wahanol i DLA, a bydd angen i chi benderfynu os ydych chi am wneud cais am PIP cyn i'ch DLA ddod i ben.

Ni allwch ddewis i aros ar DLA. Os byddwch yn penderfynu peidio â gwneud cais am PIP pan fyddwn yn cysylltu â chi, bydd eich Lwfans Byw i'r Anabl yn dod i ben. Ni allwch gael Lwfans Byw i'r Anabl a PIP ar yr un pryd ac ni fyddwch yn cael eich symud yn awtomatig o DLA i PIP.

### A fydd y newid yn effeithio ar bawb?

Mae Lwfans Byw i'r Anabl yn dod i ben ar gyfer pobl a oedd yn 16 oed i 64 oed ar 8 Ebrill 2013 (y dyddiad y cafodd PIP ei gyflwyno). Mae'n hefyd yn dod i ben ar gyfer pobl sy'n cyrraedd 16 oed ar ôl y dyddiad hwn. Os cawsoch eich geni cyn 8 Ebrill 1948 ni chewch ei effeithio gan y newid hwn a byddwch yn parhau i gael DLA.

### Pryd fydd fy DLA yn dod i ben?

Byddwch yn parhau i gael Lwfans Byw i'r Anabl tan y bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau'n ysgrifennu atoch ynglŷn â phryd y daw i ben.

Byddwn yn dweud wrthych fod eich Lwfans DLA yn dod i ben ac yn rhoi gwybodaeth i'ch helpu i benderfynu os ydych am wneud cais am PIP.

### Beth sydd angen i mi ei wneud?

Nid oes angen i chi gysylltu â ni hyd nes y cewch lythyr gennym, oni bai bod angen i chi ddiweddaru eich manylion cyswllt neu os oes newid yn y ffordd y mae'ch salwch neu'ch anabledd yn effeithio arnoch.

Ar gyfer y newidiadau hyn, dylech gysylltu â Llinell Gymorth DLA. Mae manylion cyswllt ar gael yn: **www.gov.uk/disability-benefits-helpline**
Pan fyddwn yn ysgrifennu atoch, peidiwch ag anwybyddu eich llythyr.

Os nad ydych yn cymryd unrhyw gamau, bydd eich DLA yn dod i ben. Bydd budd-daliadau a gwasanaethau eraill fel mynediad at y cynllun 'Motability', Bathodyn Glas neu docynnau teithio rhatach a Lwfans Gofalwr yn cael ei effeithio os nad ydych yn penderfynu gwneud cais am PIP. Byddwch hefyd yn cael ei effeithio os byddwch yn gwneud cais ac nad ydynt yn cael PIP neu os ydych yn cael cyfradd o PIP sy'n golygu nad ydych yn gymwys am wasanaethau neu fudd-daliadau penodol.

### Beth fydd yn digwydd os byddaf yn hawlio PIP?

Os ydych yn hawlio PIP, byddwn yn gofyn i weithiwr iechyd proffesiynol edrych ar sut y mae eich anabledd neu gyflwr iechyd yn effeithio ar eich bywyd bob dydd. Efallai y byddant yn gofyn i chi fynd i ymgynghoriad wyneb yn wyneb, neu gofyn i'ch gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol ddarparu gwybodaeth.

### A fydd fy arian yn newid?

Mae'r cyfraddau ar gyfer PIP yn wahanol i DLA. Ni allwn ddweud wrthych os cewch PIP, neu'n union faint a gewch, hyd nes y byddwch wedi cwblhau eich cais. Fodd bynnag, gallwch ddod o hyd i'r cyfraddau presennol o PIP yn: **www.gov.uk/pip/what-youll-get**

## I gael mwy o gymorth

Os oes angen help arnoch i benderfynu wneud cais am PIP gallwch siarad â'ch gofalwr, eich teulu neu'ch ffrindiau. Ceir mwy o wybodaeth am PIP yn **www.gov.uk/pip**

Gallwch hefyd gysylltu â sefydliad cymorth lleol a all roi cymorth a chefnogaeth annibynnol. Gallwch ddod o hyd i'w manylion ar-lein, eich llyfrgell leol neu gyfeiriadur ffôn.

Cefnogi eich annibyniaeth

Adran Gwaith a Phensiynau